

Stôr-wresogyddion nos

Canllaw syml

Mae stôr-wresogyddion yn gweithio drwy storio gwres a gynhrychir gan drydan nos rhad a rhyddhau'r gwres hwn yn ystod y dydd.

Mae'r rhan fwyaf o stôr-wresogyddion ar y wal ac yn edrych ychydig fel rheiddiaduron. Maent yn gweithio drwy dynnu trydan dros gyfnod o ychydig oriau yn y nos, a'i storio fel gwres mewn 'cronfa' o frics clai neu ceramig i'w ddefnyddio'r diwrnod canlynol. Y fantais yw y gallant ddefnyddio trydan yn y nos, pan mae'n rhad, a rhyddhau eu gwres oriau'n ddiweddarach.

O ganlyniad maent yn gweithio orau os yw'r cartref ar Economi 7. Mae hon yn dariff lle mae trydan nos yn llawer rhatach - yn nodweddiadol tua thraean o'r pris - ond bod trydan yn ystod y dydd yn ddrytach. Mae'r oriau rhad fel

Stôr-wresogydd Jack a Gwen

Mae Jack a Gwen yn gwpl wedi ymddeol y mae eu cartref yn cael ei gynhesu gyda thrydan. Mae ganddynt **stôr-wresogyddion** i fanteisio ar y tariff Economy 7.

Yn y gaeaf, maent yn aros yn y tŷ am y rhan fwyaf o'r dydd. Mae hyn yn golygu eu bod am i'w stôr-wresogydd wefru'n llawn yn ystod y nos, felly maent yn gosod y **mewnbwn** i 6 a'r allbwn i 1, neu'n ei ddiffodd.

Yn y bore, i gynhesu'r tŷ, maent yn troi'r **allbwn** i 4. Unwaith y bydd y tŷ yn gynnes, maent yn ei droi i lawr i 2, ac yn y nos pan fydd yn oerach, maent yn ei droi i 5 neu 6 i ddefnyddio gweddill y gwres wedi'i storio.

Nos



Y peth olaf sy'n cael ei wneud yn y nos yw troi'r **mewnbwn** i fyny'n llawn (i 6)




... ac mae'r **allbwn** yn cael ei droi i lawr i'r isafswm (1)



Dydd



Yn gynnar yn y bore, trowch yr **allbwn** i 4



Ganol bore, trowch yr **allbwn** i lawr i 2



Gyda'r nos, trowch yr **allbwn** i 5-6



Mae pob stôr-wresogydd â phâr o reolaethau ar gyfer mewnbwn ac allbwn

arfer rhwng hanner nos a 07.00 yn y gaeaf, a rhwng 01.00 ac 08.00 yn yr haf, er gall hyn amrywio. I gael mwy o wybodaeth am Economi 7, gweler ein taflen arall.

Mae pob stôr-wresogydd â chyfres o reolaethau syml. Mae gosodiad mewnbwn yn eich galluogi i reoli faint o wres y mae'r gwresogyddion yn ei gadw yn ystod y nos. Mae hyn yn bwysig oherwydd, er bod trydan ar gyfradd nos yn rhad, does dim pwynt talu am fwy nag sydd ei angen arnoch. Os nad yw'n arbennig o oer, neu os byddwch allan o'r tŷ am y rhan fwyaf o'r dydd, nid oes angen i chi osod y mewnbwn i'r uchafswm oherwydd does dim pwynt storio cymaint o wres. Bydd y rhan fwyaf o stôr-wresogyddion ond yn gwefru yn y nos, felly nid oes unrhyw berygl o ddefnyddio trydan cyfradd dydd, sy'n ddrud.

Mae gan y rheolaethau osodiad allbwn sy'n eich galluogi i reoli faint o wres y mae'r stôr-wresogydd yn ei ddosbarthu. Mae'n golygu nad oes rhaid i chi ddefnyddio'r holl wres wedi'i storio ar unwaith, ond yn gallu ei ryddhau'n raddol, gan arbed rhywfaint ar gyfer y nos os ydych chi eisiau.

Mae rhai stôr-wresogyddion gydag amseredd sy'n rhoi hyd yn oed mwy o reolaeth dros yr allbwn i chi. Mae'n eich caniatáu chi, er enghraifft, i raglennu eich gwresogydd i ddod ymlaen ar amser sy'n gyfleus i chi, er enghraifft, pan fyddwch yn codi yn y bore neu'n union ar ôl i chi ddod adref o'r gwaith. Mae eraill yn cynnwys rheolydd sy'n rheoleiddio faint o wefr mae'r gwresogydd yn ei dynnu yn ystod y nos, yn dibynnu ar y tymheredd.

Mae rhai stôr-wresogyddion â gosodiad 'hwb'. Nid yw hwn yn defnyddio gwres wedi'i storio ar 'gyfradd rad', ond trydan 'cyfradd oriau brig' yn uniongyrchol o'r prif gyflenwad, felly dylid ond ei ddefnyddio os yw'r gwres storio wedi dod i ben.

Gwneud y gorau o'ch stôr-wresogydd

Dylai'r gosodiad 'allbwn' ar eich stôr-wresogydd gael ei ddiffodd yn y nos; a hefyd ei ddiffodd pan fyddwch allan o'r ystafell neu allan o'r tŷ.

The 'output' setting should be turned off at night



Gall y gosodiad Hwb gael ei ddefnyddio i ddsbarthu cynhesrwydd ychwanegol. Ond mae'n defnyddio gwres wedi'i storio'n gyflymach, felly osgowch rhag ei ddefnyddio oni bai bod yn wir rhaid i chi.

Osgowch ddefnyddio gwresogyddion ategol â phlwg.

Mae'n well troi'r mewnbwn i fyny ar eich stôr-wresogydd a storio mwy o wres.



Syniadau ar gyfer gostwng biliau ynni



Rhowch ddiwrnod yn yr haul i'ch dillad a rhowch seibiant i'ch peiriant sychu

dillad. Mae dillad wedi'u sychu yn yr awyr iach yn teimlo'n wych, ac mae dyddiau sychu yn y gaeaf, hefyd.

Pan fyddwch yn coginio, cadwch ddrws y popty ar gau gymaint ag sydd yn bosib;

bob tro byddwch yn ei agor, bydd bron i chwarter y gwres yn dianc.



Peidiwch â gwefruch ffon

drwyr nos. Dim ond tair awr sydd ei angen arno - a cheiswch beidio gadael y teledu ac offer eraill yn gorffwys.

Dysgwch nhw'n ifanc.

Anogwch eich plant i ddiffodd teganau trydan a goleuadau nad ydynt yn eu defnyddio. Fe fyddant yn dod i ddeall arbed ynni yn fuan.



Paned o de neu goffi? Dim ond faint o ddŵr yr ydych ei angen ddylech chi ei roi yn y tegell (ond gwnewch yn siŵr eich bod yn gorchuddio'r elfen fetel ar y gwaelod).

Osgowch y drafft!

Gosodwch atalwyr drafft ar eich drws ffrynt, blwch llythyrau a thwll allwedd, a chaewch eich llenni wrth iddi nosi er mwyn cadw'r gwres i mewn.



Trowch y gwres i lawr 1 radd.

Fyddwch chi ddim yn sylwi ar y newid mewn tymheredd, ond bydd yn gwneud gwahaniaeth mawr i'ch bil trydan.

Arhoswch tan fydd gennych chi lond llwyth cyn rhoi'r

peiriant golchi llestri neu'r peiriant golchi i fynd. Mae llwyth llawn yn defnyddio llai o ynni (a dŵr) na dau lwyth hanner llawn.



Cysgwch yn dda. Gwnewch yn siŵr bod yr holl oleuadau cael eu diffodd pan fyddwch yn mynd i'r



gwely. Os ydych am oleuo ystafell plentyn neu landin, defnyddiwch olau nos watedd isel.

More energy-saving advice at www.cse.org.uk/advice



3 St Peter's Court
Bedminster Parade
Bristol BS3 4AQ

0117 934 1400
www.cse.org.uk
info@cse.org.uk

Charity: 298740
Founded: 1979

Cynhyrchwyd y daflen hon yn wreiddiol gan y Ganolfan ar gyfer Ynni Cynaliadwy, elusen genedlaethol (rhif 298740) sy'n helpu pobl i newid eu hagwedd a'u harferion o ran ynni

Mae ein Tîm Ynni Cartref yn cynnig cyngor am ddim ar y defnydd o ynni domestig i ddeiliaid tai ym Mryste a Gwlad yr Haf (gan gynnwys awdurdodau unedol Gogledd Gwlad yr Haf a Chaerfaddon a Gogledd Ddwyrain Gwlad yr Haf).



For energy advice:

Phone **0800 082 2234**

Email home.energy@cse.org.uk

Web www.cse.org.uk/loveyourhome



www.facebook.com/EnergySavingAdvice



www.twitter.com/cse_homeenergy